

Diweddariadau i Ganllaw Modelu Draenio Trefol Integredig CIWEM

Rhaglen Ymchwil Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol

Dyddiad: Mai 2021

Prosiect: FRS18207

Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd (CIWEM), gan weithio gyda'r Rhaglen Ymchwil Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol, wedi cyhoeddi canllaw newydd a diwygiedig ar gyfer modelu draenio trefol integredig (*Integrated Urban Drainage Modelling Guide*, neu IUDMG).

Er mwyn nodi a rheoli risg llifogydd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, yn aml mae angen ystyried risg llifogydd o amryw ffynonellau o lifddwr ar yr un pryd (er enghraifft, systemau draenio, afonydd, a'r môr).

Mae'r canllaw'n cynnwys gwyddoniaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers ei gyhoeddi yn gyntaf yn 2009. Mae dyluniad y canllaw, yr arddull a'r cynnwys cyffredinol wedi'u diweddarau hefyd. Bellach mae'n:

- pwysleisio dulliau gweithredu sy'n gymesur â graddfa a chymhlethdod pob problem o ran llifogydd
- annog rhoi ystyriaeth i ansicrwydd a hyder yn ystod pob cam asesu
- dangos arferion da ar gyfer modelu hydrologig integredig ar amryw elfennau systemau draenio trefol.

Mae'r canllaw diwygiedig yn ei gwneud yn haws i weithwyr proffesiynol rheoli risg llifogydd ddeall risg llifogydd, a sut i ddefnyddio'r ddealltwriaeth honno.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw?

Mae'r canllaw diwygiedig wedi'i anelu at bob ymarferydd draenio trefol integredig, o unrhyw sector, ac ar draws amrywiaeth o arbenigeddau a phrofiadau. Mae wedi'i ddylunio i wella cysondeb ac ansawdd gwaith modelu integredig ar gyfer cleientiaid a chyflenwyr, ond nid yw'n disodli profiad a gwybodaeth.

Sut cafodd ei ddiweddarau?

Cafodd y prosiect ei reoli a'i lywio gan grŵp llywio yn cynnwys arbenigwyr rheoli risg llifogydd o CIWEM, Asiantaeth yr Amgylchedd, Stantec, United Utilities ac Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol cyngor Torbay.

Richard Allit (o Richard Allit Associates) a Katy Pearson (o Aecom) oedd prif awduron a golygyddion y canllaw, ac ysgrifennodd staff o'u sefydliadau perthnasol y cynnwys. Cafwyd cyfraniadau pellach gan sefydliadau ar draws ddiwydiant ehangach rheoli risg llifogydd, yn cynnwys BlueSky, Maltby Surveys, Onsite, Jabobs, Innovyze, JBA, Mike a BMT.

Datblygodd Richard, Katy, a'u timoedd gynnwys ac arddull y canllaw newydd drwy gyfres o weithdai i ddefnyddwyr, a fynychwyd gan drawstoriad o bobl sy'n gweithio yn y diwydiant rheoli risg llifogydd. Cafwyd sylwadau gan reoleiddwyr, arweinwyr polisi, ymgynghorwyr, peirianwyr, gwasanaethau, awdurdodau llifogydd lleol arweiniol, ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill. Adolygodd y grŵp llywio ddrafftiau cynnar o'r canllaw er mwyn cydbwysu swmp y cynnwys â defnyddioldeb.

Sut gallaf i weld y canllaw?

[Cliciwch yma](#) (ac yna ehangu'r pennawd "Guidance Notes") i weld y canllaw a'r atodiadau.

Neu gallwch fynd i <https://www.ciwem.org/>, a dilyn y dolenni i "Communities", yna "Urban Drainage Group", ac yna "Guidance Notes".

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect FRS18207, yr adroddir arno'n fanwl yn yr allbwn/allbynnau canlynol:

Teitl: Integrated Urban Drainage Modelling Guide

Mai, 2021

Rheolwr y prosiect: Mark Whitling, Ymchwil Llifogydd a Chymunedau, Rheoli Risg Llifogydd ac Arfordirol, Asiantaeth yr Amgylchedd

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCRM Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, fel rhan o Raglen ar y cyd Ymchwil a Datblygiad Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol.

Gwefan: [Flood and Coastal Erosion Risk Management Research and Development Programme](#)

E-bost: fcrm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Environment Agency

For Welsh Translation Only